# Y PAPUR GWYRDD

- Pentre Eco'n cofleidio'r Gymraeg
- Llandeilo'n paratoi am fyd heb olew
- Dr Iolo ap Gwynn: rhaid troi at ynni amgen os am ganrif arall ar y Ddaear

## ELW I'R CWMNIAU GLO — NEU DDYFODOL I'R DDAEAR?

Y BROTEST YN FFOS-Y-FRÂN, MERTHYR TUDFUL



Y Cylchgrawn sy'n galw am barch at y Ddaear — er mwyn ein plant

Y PAPUR GWYRDD
Rhif 4
Chwefror Mawrth 2008
PRIS: £1
ISSN 1755-3504

**Y PAPUR GWYRDD**
Golygydd: Hywel Davies

217 Vicarage Road,
Treforys, Abertawe
SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162
Ebost:
ypapurgwyrdd1@btinternet.co.uk
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Cyhoeddir yn ddeufisol

MAE nifer o bethau yn y rhifyn hwn o'r Papur Gwyrdd yn rhesymau i fod yn falch drostynt:

- Bod mwy o garedigion y Ddaear a'r Gymraeg wedi mynd ati i gyfrannu erthyglau ...
- Bod mudiad cyffrous pentre' effaith isel yn Sir Benfro yn gweld y Gymraeg fel un o drysorau'r blaned ...
- Bod Llandeilo wedi ennill teitl Tre' Trawsnewid …
- Bod Canolfan y Dechnoleg Amgen yn ehangu gweithgarwch

… A mwy! Digon o reswm i gredu ein bod ni'n mynd i'r cyfeiriad iawn!

**Argreffir Y Papur Gwyrdd yn lleol ar bapur o goedwigoedd cynaliadwy cofrestredig gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR**

# CYNNWYS

3 **Sut fyd bydd hi gyda'r ffynhonnau olew'n sychu? Llandeilo'n arwain Cymru wrth baratoi …**

4 *Y cwmniau glo sy'n gosod elw uwch dyfodol y Ddaear. Golygyddol.*




▶ Protest glo brig, tud 8

5 **Yn Sir Benfro — y pentre' 'eco' sy'n gweld bod achub y Ddaear yn golygu achub y Gymraeg**

6 DR IOLO AP GWYNN — angen ynni amgen ar frys yn wyneb y bygythiad i'n planed



7 **ALWYN RICHARDS — Canolfan y Dechnoleg Amgen yn dangos sut i fyw heb niweidio'r Ddaear**



8 *LEANNE WOOD AC — angen mwy o bwerau ar Gymru os am dorri 'nôl o ddifrif ar ollyngiadau $CO_2$*

9 **SERAN DOLMA — a welwn y mudiad gwrth-niwclear yn ail godi wedi cyhoeddiad Gordon Brown?**

10 **Bali — llwyddo neu fethu? Barn y gwyddonydd Syr John Houghton**



**LLUNIAU PROTEST FFOS-Y-FRÂN: undercurrents.org**

**HYSBYSEBION**
Tud. 11: DVDs *Undercurrents*
Cefn: Matresi Organig Abaca

## ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

CAFWYD cytundeb o drwch blewyn ar ddiwedd uwch-gynhadledd amgylcheddol Bali ym mis Rhagfyr - dros 24 awr wedi diwedd swyddogol y trafodaethau. Yn wyneb pwysau gan fwyafrif mawr o'r llywodraethau oedd yn bresennol, cytunodd yr Unol Daleithiau i arwyddo'r ddogfen er yn mynnu bod ffigyrau penodol am leihad nwyon tŷ gwydr yn cael eu symud o'r penawdau. *Ymateb Syr John Houghton ar dudalen 10.*

MAE un o brif arbenigwyr gwyrdd y DU wedi beirniadu Gordon Brown a Llywodraeth Lafur San Steffan yn hallt am gefnogi cenhedlaeth newydd o atomfeydd. Dywedodd Sir Jonathon Porritt, cadeirydd Comisiwn Datblygu Cynaliadwyedd y llywodraeth, fod y penderfyniad yn dangos cyn lleied roedd gweinidogion yn deall am fygythiad newid hinsawdd. Gan gyfeirio at atomfeydd, dywedodd, "Rhaid dod o hyd i atebion i'r gwastraff, i'r costau, ac i ddadgomisiynu. Dydy'r atebion ddim ar gael i un o'r cwestiynau hynny."

MAE gwledydd yn Asia'n wynebu argyfwng dŵr o ganlyniad i newid hinsawdd a diwydiannu cyflym. Rhybuddiodd adroddiad gan Fanc Datblygu Asia nad yw adnoddau dŵr Bangladesh, Cambodia a Fietnam yn gallu delio gyda thŵf poblogaeth wedi blynyddoedd o gam-reoli ac y byddai newid hinsawdd yn ychwanegu at y problemau.

MAE mudiad amgylcheddol newydd wedi lledu'n gyflym ar ddechrau 2008 yn yr Unol Daleithiau. Crewyd *Focus the Nation* gan grŵp o ymgyrchwyr gwyrdd yn Portland, Oregon, i ddysgu myfyrwyr a ffurfwyr polisi am newid hinsawdd ac i'w hannog i weithredu. Fel adlais o fudiad gwrth-ryfel y 1960au, mae'r mudiad wedi denu cefnogaeth myfyrwyr mewn mwy na 1,000 o golegau, cymdeithasau trefol, grwpiau eglwysig a chwmnïau preifat. Meddai un o'r trefnwyr, "Dechreuodd hyn gyda dim ond dau ohonom. Bellach mae gyda ni rhyw 10,000 o wirfoddolwyr ledled y wlad."

PENDERFYNODD Pwyllgor Deisebau Senedd Ewrop fod angen ymchwiliad pellach i brosiect enfawr pibellau LNG yng Nghymru. Yn dilyn tystiolaeth gan chwe deisebydd Cymreig sy'n ymgyrchu yn erbyn y prosiect, ynghyd â'r ASE Plaid Cymru Jill Evans, gofynnodd y pwyllgor i'r Comisiwn Ewropeaidd edrych ar saith achos o dorri rheolau Ewropeaidd.


SEFYDLWYD menter ar y cyd rhwng cwmni sy'n cael ei arwain gan Al Gore ac un o gwmnïau Silicon Valley yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Y bwriad yw defnyddio cryfder ariannol ac arbenigedd ymchwil y cwmniau i gyflymu datblygiad technolegau a pholisïau sy'n hanfodol i economi carbon isel.

YMUNODD BP â chwmni Husky Energy o Hong Kong i gloddio olew mewn ffurf tywod tar yn ardaloedd anghysbell talaith Alberta yng Nghanada. Bydd angen dinistrio fforestydd maint Cymru a Lloegr, gyda'u holl fywyd gwyllt, i godi'r tar. Rhybuddiodd David Schindler o Brifysgol Alberta y bydd y pyllau enfawr a gloddir gan y gwaith i'w gweld am fil o flynyddoedd o'r gofod.

YN INDIA, gorymdeithio 25,000 o bobl rhyw 350 o cilomedrau i Delhi yn galw am barch at hawliau llwythi brodorol. Mae llawer yn cael eu gyrru o'u tiroedd yn wyneb datblygiadau megis ffatrioedd, cronfeydd dŵr a thwristiaeth.

'Un o'r pethau mwya' effeithiol y gellwch wneud i gryfhau eich cymuned yw penderfynnu gwario'ch arian yn lleol' — Graham Bell, *The Permaculture Way*

## DIWEDD OLEW ...




**ER bod aelodau mudiad Trefi Trawsnewid Llandeilo yn deall yn iawn fod olew rhad yn diflannu, achosodd dangosiad o'r ffilm** ***A Crude Awakening: The Oil Crash*** **gryn sioc gyda'i neges ysgytwol o ddifrifoldeb y bygythiad i'n ffordd o fyw.**

**Trefnwyd y dangosiad fel rhan o'r ymgyrch i gael pawb ohonom i ystyried beth y gellir ei wneud yn wyneb sefyllfa sy'n peryglu cymaint o bethau y cymerwn yn ganiataol.**

**Dengys** ***A Crude Awakening*** **sut mae dibyniaeth ein gwareiddiad modern ar olew rhad yn gwrthdaro â ffeithiau daearegol sy'n dangos bod olew yn diflannu'n gyflym.**

**"Mae'n frawychus bod cyn lleied o wybodaeth gyda'r cyhoedd ynglŷn â'r hyn sy'n ein hwynebu o fewn ond ychydig flynyddoedd," meddai un arbenigwr.**

► Gellir prynu copïau o *A Crude Awakening* ar y Wê, ac mae cyflwyniad i'r ffilm ar *YouTube* gyda sylwadau ar *'peak oil.'*

# Addasu i fyd heb olew — Llandeilo'n rhoi arweiniad i Gymru

**MAE Llandeilo wedi ymuno â Threfi Trawsnewid gwledydd Prydain - y dref gyntaf yng Nghymru i ennill y teitl gan fudiad Transition Towns UK.**

Gan ddweud mor falch oedd hi bod Llandeilo wedi cael ei chydnabod, meddai un o'r trefnwyr, Rhiannon Rowley, "Mae'n codi 'nghalon i fod cymaint o bobl yn ystyried bod rhaid i ni newid ein bywydau nawr os ydy'n plant i fwynhau bywydau cyfforddus yn y dyfodol."

Esboniodd Rhiannon fod cryn weithgarwch wedi datblygu yn Llandeilo yn ystod y flwyddyn a aeth heibio wrth i bobl ddod at ei gilydd i greu grwpiau i drafod sut y gellir addasu'n ffordd o fyw.

Nod y mudiad a ddechreuodd yn Iwerddon yw cael cymunedau i baratoi ar gyfer diflaniad tanwyddau ffosil megis olew fel ffynhonnell ynni rhad ac i wynebu yr eithafion Newid Hinsawdd fydd yn effeithio ar bob rhan o'r byd.

Roedd rhaid i grŵp cymunedol Trefi Trawsnewid Llandeilo ddarbwyllo aseswyr Transition Towns eu bod wedi bwrw ati o ddifrif i ddechrau creu atebion i'r anawsterau sy'n rhwym o ddigwydd wrth i gronfeydd olew sychu.

Meddai Rhiannon, "Roedd rhaid i ni ddangos bod nifer sylweddol o bobl yn gweithio'n wirfoddol gyda'r mudiad yn yr ardal, bod pobl o wahanol gefndiroedd yn ymwneud â'r gwaith, a bod amrywiaeth o brosiectau gwahanol eisoes ar gerdded."

Roedd aelodau Trefi Trawsnewid Llandeilo wedi mynd ati i greu gwefan fel un o'r anghenion ar gyfer ennill y teitl, a'r bwriad yw y bydd y wefan yn hollol ddwyieithog wrth i fersiwn Gymraeg gael ei pharatoi gan Fenter Cwm Gwendraeth.

Un o'r grwpiau sydd wedi cael ei sefydlu yn y dre ydy un sy'n anelu at blannu perllannau afalau fel un agwedd o gynhyrchu bwydydd lleol er mwyn osgoi mewnforio o wledydd tramor.

"Mae'n debyg bod Dyffryn Tywi yn draddodiadol yn ardal oedd yn enwog am dyfu afalau, a'r syniad yw ein bod yn ail greu'r traddodiad hwnnw," meddai Rhiannon, "Ar hyn o bryd, mae'r grwp yn trafod gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol pa diroedd sydd ar gael i greu perllannau newydd."

Mae grwp arall yn ystyried sut i greu rhandiroedd er mwyn i bobl Llandeilo gynyddu cynnyrch bwydydd lleol amrywiol.

"Grwp newydd diddorol iawn," meddai Rhiannon, "yw *Heart and Soul* sy'n edrych ar yr agweddau seicolegol o sut mae pobl yn gallu newid eu bywydau gan symud o'n dibyniaeth ar olew ar gyfer ynni."

Dan ystyriaeth hefyd ydy sut i ddechrau defnyddio egwyddorion '*Permaculture*' yn y fro.

Mae Rhiannon Rowley yn cyfaddef y byddai'n falch i weld mwy o Gymry Cymraeg yn cymryd rhan ym mhrosiectau trawsnewid Llandeilo.

Byddai hyn yn fodd i'r iaith Gymraeg fod yn rhan o'r paratoadau cyffrous ar gyfer dyfodol fydd yn wahanol iawn i'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd.

**►I gael mwy o wybodaeth am fudiad Trefi Trawsnewid Llandeilo, ewch ar eu gwefan: www.transitiontownllandeilo.org.uk**





**Rhiannon Rowley'n annerch y dyrfa welodd ffilm** ***A Crude Awakening*** **yn Llandeilo**

# Adeiladwyr ar eu hôl hi

**YN ÔL adroddiad** ***Building a Sustainable Future*****, dyw'r rhan fwyaf o adeiladwyr tai ddim yn sicrhau bod cartrefi newydd yn cyfrannu at yr ymgyrch i gwtogi ar ollyngiadau carbon.**

Bu'r adroddiad gan NextGeneration - corff y mae WWF yn bartner ynddo - yn ymchwilio i bolisïau cynaliadwyedd yr 20 cwmni mwyaf ym maes adeiladu tai yn y DU, gan gynnwys nifer yng Nghymru.

Mae'r dadansoddiad yn tynnu sylw at y bwlch mawr rhwng lle mae'r diwydiant heddiw a lle mae angen iddo fod er mwyn gwireddu gweledigaeth y llywodraeth y dylai pob adeilad newydd yng Nghymru fod yn ddi-garbon erbyn 2011.

Dywedir bod angen i'r sector wella'n gyflym i gadw i fyny â'r newid cyflym iawn y mae ei angen er mwyn gwireddu agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar newid yn yr hinsawdd. O'r 20 cwmni mwyaf gafodd eu holi:

- Mae 60% yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn fater o bwys i'r sector, ond nid oes gan yr un ohonynt bolisi ar newid yn yr hinsawdd yn barod.
- Dim ond 25% sy'n deall beth yw ôl troed carbon eu gweithrediadau.
- Dim ond 15% sydd â pholisïau ar gaffael cynaliadwy.

Dywedodd Morgan Parry, Pennaeth WWF Cymru, "Ar hyn o bryd mae ein cartrefi'n gyfrifol am 27% o'n gollyngiadau carbon.

"Felly er mwyn cyrraedd targed Cymru o leihau gollyngiadau 20% erbyn 2020 mae'n hanfodol i adeiladwyr tai chwarae eu rhan bwysig mewn helpu i gyrraedd y targed hwn."

GOLYGYDDOL


# Cymru'n ysglyfaeth eto i gwmniau glo sydd eisiau elw brwnt – a'r Ddaear i dalu'r pris



**FEL y bu mor flaenllaw wrth lygru'r Ddaear ers y Chwyldro Diwydiannol, mae Cymru bellach yn cael ei defnyddio mewn modd sy'n rhwym o danseilio ymdrechion i dorri 'nôl ar ollyngiadau $CO_2$ i'r atmosffer.**

Mae'r hyn sy'n digwydd yn adlewyrchu rhybudd Al Gore y bydd corfforaethau mawr cyfalafol yn gwneud eu gorau glas i rwystro pob ymgais i atal y niwed maen nhw'n achosi i'r amgylchedd.

I'r *vested interests* hynny, fel y cwmnïau tanwydd ffosil, elw tymor byr yw'r peth pwysicaf ac nid dyfodol y Ddaear fel cartref i'n plant.



Y tristwch yw bod hyn yn digwydd er bod gan ein Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad statudol i greu economi gynaliadwy yng Nghymru. Golyga hynny economi nid yn unig nad yw'n achosi niwed i'r amgylchedd ond sy'n cyfrannu at wella'r Ddaear o'r briwiau enbyd a achoswyd iddi .

- Meddyliwch am yr ymrwymiad hwnnw wrth weld 1000 o erwau Ffos-y-frân ar gyrion cartrefi Merthyr Tudful yn cael eu rhwygo'n yfflon i ddyfnder o 600 troedfedd gan gwmni mawr Miller Argent er mwyn codi miliynau o dunelli o Lo Brwnt
- Meddyliwch am yr ymrwymiad hwnnw wrth weld cwmniau glo rhyngwladol yn mynd ati i hyrwyddo ail ddatblygu glofeydd tanddaearol yng Nghymru a sôn am godi pwerdai glo newydd.
- A meddyliwch am yr ymrwymiad hwnnw wrth ymweld â chraith pibell nwy hylifol National Grid sy'n gweu fel sarff o un pen o ddeheudir Cymru i'r llall.

Pa fath o gynaliadwyedd economaidd ydy hyn wrth feddwl nad yw technolegau i leihau gollyngiadau $CO_2$ yn weithredol yn fasnachol eto?

Bydd pob un o'r datblygiadau uchod yn ychwanegu at nwyon niweidiol tŷ gwydr. Dyna'r nwyon mae gwyddonwyr amgylcheddol, a sefydliadau gwyddonol rhyngwladol, a mwyafrif llethol llywodraethau'r byd yn ystod Cynhadledd Amgylcheddol Bali, yn rhybuddio sy'n gwthio'r Ddaear tua'r dibyn.


Ond chlywch chi ddim byd am hynny wrth i'r awdurdodau a'u tîmau PR groesawu 'Glo Glân', 'swyddi newydd,' 'diogelwch ynni', 'cadw sgiliau traddodiadol', 'technoleg newydd' ac ati.

Dyna gwmni **Miller Argent** yn disgrifio safle glo brig Ffos-y-frân fel prosiect ***'adfer tir'*** y bydd pobl y dyfodol yn diolch amdano – sef safle fydd yn golygu cloddio am 17 mlynedd, gan gynhyrchu 30 miliwn tunnell o $CO_2$ i wneud Newid Hinsawdd yn fwy eithafol.

Yn y cefndir mae'r awgrym bod glo, rhywsut, yn ddiwydiant sy'n perthyn i'n Cymreictod, ac felly sy'n rhwym o fod 'yn dda.' Ond elw pia hi, ac mae cwmniau mwyngloddio rhyngwladol wedi bod yn llygadu cronfeydd glo Cymru ers i bris glo godi. Ac nid llygadu'n unig. Maen nhw yma:

- Dyna gorfforaeth fyd-eang **Cambrian Mining Plc** sy'n dal mwyafrif cyfranddaliadau cwmni Energbuild sy'n ail-ddatblygu glofa Aberpergwm yng Nghwm Nedd. Medd un o adroddiadau **Coal International**, sy'n is-gwmni i Cambrian, "[*The company is*] *on track to achieve its goal of becoming a global coal production and investment company."*
- A dyna **Chian Resources**, corfforaeth mwyngloddio enfawr o Awstralia, sy'n rhan o bartneriaeth gyda **Horizon Mining** yng nghwmni Unity Plc sydd wedi ail-agor glofa yng Nghwmgwrach, hefyd yng Nghwm Nedd.

Nid mater ydy hwn o weithgarwch arwrol gan griw o lowyr Cymreig mewn ymdrech gydweithredol i achub eu pwll. Dyna wnaeth dynion Pwll y Tŵr dan arweiniad Tyrone O'Sullivan yn Hirwaun. Ond mae'r Tŵr bellach wedi dod i ben a chorfforaethau mawrion sydd yn eu lle (er, cofiwch, $CO_2$ ydy $CO_2$ beth bynnag natur y glowyr).



UROPTERIS GIGANTEA

Ble bynnag yr edrychwch chi wrth astudio'r diwydiant glo byd eang, fe welwch fod cwmniau'n neidio at y cyfle newydd i gychwyn prosiectau glo newydd, neu i ail-agor prosiectau fu ar gau.



"Diolch i Dduw am bwyllgor canolog y Blaid Gomiwnyddol Tsieineaidd!" medd un o swyddogion sinigaidd cwmni Horizon wrth weld eu cyfle yng Nghymru, "Mae eu hymroddiad i ddiwydiannu wedi effeithio ar brisoedd ynni ledled y byd."

Ond mae hi'n effeithio ar fwy na phrisoedd: mae'n effeithio'n ddinistriol ar holl ddyfodol y Ddaear. Ydyn ni yng Nghymru am fod yn rhan o hyn?

Barn gwyddonwyr yw bod cynlluniau i ail ddatblygu'r diwydiant glo ym Mhrydain, fel ymhob man arall, yn mynd i chwalu'r hyn o gytundeb a gaed yng Nghynhadledd Bali.

Yn yr *Independent,* meddai un o'r gwyddonwyr amgylcheddol amlycaf, Dr James Hansen, cyfarwyddwr Sefydliad NASA Goddard dros Astudiaethau Gofod yn Efrog Newydd, "Mae llawer mwy o $CO_2$ mewn glo nag sydd mewn olew, ac mae olew yn dod i ben. Mae digon o $CO_2$ mewn glo i'n cymryd ymhell y tu hwnt i'r lefel beryglus fydd yn cynhyrchu planed wahanol.

"Petawn yn peidio ag ychwanegu $CO_2$ i'r atmosffer heddiw," meddai, "byddwn yn dal i gael effaith fawr ar yr hinsawdd, ond fyddwn ni ddim wedi mynd heibio i'r pwynt di-droi 'nôl."

Galwn ar aelodau'n Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau na fydd gweithgarwch corfforaethau rhyngwladol yng Nghymru yn ein gwthio i gyd y tu hwnt i'r pwynt hwnnw.

Rhaid ymdrechu i atal unrhyw gynnydd newydd mewn cynhyrchu a llosgi glo - nes bod hynny'n bosibl heb ryddhau $CO_2$. Yn wir, yr angen yw i dorri'n llym ar y gollyngiadau carbon.

Felly, rhaid i'r pwyslais fod ar leihau ein defnydd o ynni, ac i droi at ynni adnewyddol, os ydym am warchod y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**HYWEL DAVIES**

MENTER 'ECO' YN COFLEIDIO'R IAITH GYMRAEG

# Ai dyma'r trobwynt wrth i Lamas arwain y ffordd at Gymraeg Werdd?



[Uchod] Model o ganolfan Pentref Lamas. Os caiff caniatad, bydd y pentref arloesol yn cynnwys amrywiaeth o gartrefi i deuluoedd fydd yn byw bywydau syml a gwyrdd.

**MAE un o sylfaenwyr Prosiect Lamas i greu pentref ecolegol, effaith isel, yn Sir Benfro yn dweud bod yr iaith Gymraeg bellach yn rhan annatod o natur y fenter.**

Meddai Dr Larch Maxey wrth **Y Papur Gwyrdd**, "Ar y cychwyn, roedd pobl Lamas yn deall y prosiect mewn termau ecolegol yn unig, a doedd dim sensitifrwydd i'r iaith Gymraeg.

"Ond mae 'na newid enfawr wedi digwydd. Does dim angen imi geisio perswadio neb i ddysgu Cymraeg bellach – maen nhw'n dod ataf fi yn dymuno dysgu."

Mae'r grŵp sy'n hyrwyddo'r fenter yn egluro bod eu prosiect wedi ei seilio ar fodel traddodiadol y tyddyn Cymreig. Bydd nifer o'r bywoliaethau a gaiff eu creu ar y safle ar diroedd Fferm Pont-y-Gafel, ger pentref Glandŵr, yn tynnu ar sgiliau a chrefftau traddodiadol.

Y bwriad yw defnyddio'r dulliau mwyaf cyfoes mewn dylunio amgylcheddol, technoleg werdd a syniadau *permaculture* wrth greu cymuned na fydd yn achosi difrod i'r Ddaear.

Cafodd menter Lamas ergyd fis Hydref diwethaf pan gafodd eu cais i fod y pentref effaith isel cyntaf i ennill hawliau cynllunio cyn symud ar safle eu gwrthod gan Gyngor Sir Benfro.



MAE'R Dr Larch Maxey yn un o hyrwyddwyr Pentre' Effaith Isel Lamas y gobeithir ei lleoli ger Glandŵr yn Sir Benfro. Mae'n esbonio bod aelodau'r gymuned yn frwd i Gymreigio'r fenter.

Dywedwyd nad oedd cynlluniau'r fenter yn rhoi digon o ystyriaeth i drefniadau ar gyfer trafnidiaeth i'r safle, bod cynlluniau busnes trigolion y gymuned arfaethedig yn annigonol, ac y gallai'r gymuned newydd fod yn niweidiol i'r iaith Gymraeg.

Ond mae Lamas bellach yn paratoi i gyflwyno cais newydd i gynllunwyr Sir Benfro.

"Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed iawn i baratoi'r cyflwyniad newydd," meddai Dr Maxey, "Rydyn ni'n credu bod y prosiect hwn i greu cymuned fydd ag ôl carbon isel yn un hynod o bwysig."

Ynglŷn â thraffig i'r safle, dywedodd mai camddealltwriaeth oedd wrth wraidd y broblem fis Hydref diwethaf a bod cynllunwyr Lamas yn hyderus y bydd eu cyflwyniad newydd yn dderbyniol.

Ynglŷn â diffygion cynlluniau busnes y naw rhan ddaliwr, esboniodd Larch eu bod yn bobl sy'n chwilio am fywyd syml, agos at y pridd, ac nad oedd paratoi cynlluniau ariannol, fel arfer, yn rhan o'u sgiliau.

"Ond rydym bellach wedi cael cymorth cefnogwr sy'n gyn swyddog gyda'r Gwasanaeth Cynghori Datblygiad Amaethyddol," meddai Larch, "ac rydym yn credu y bydd y wybodaeth fanwl newydd byddwn yn cyflwyno i Adran Gynllunio'r Sir yn dderbyniol y tro hwn."

Mae Larch, sy'n byw ym Mhenrhyn Gŵyr, wedi bod yn dysgu Cymraeg ers pum mlynedd, ac mae'n croesawu'r **Papur Gwyrdd** fel ymdrech bwysig i ddod a'r iaith Gymraeg a'r mudiad ecolegol at ei gilydd.

"Fe allai'r cysylltiad rhwng yr iaith Gymraeg a'r mudiad gwyrdd fod yn un pwerus iawn," meddai.

"Dw i'n teimlo'n angerddol ynglŷn â phwysigrwydd byw mewn ffordd gynaliadwy - ac mae hynny'n cynnwys parchu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol.

"Dw i wedi elwa cymaint wrth fynd ati i ddysgu'r Gymraeg – er enghraifft wrth ddechrau deall ystyr enwau llefydd, a dod yn ymwybodol o wreiddiau gwledig y Gymraeg."


Pwysleisiodd fod hyrwyddwyr Cymuned Lamas yn sylweddoli bod rhaid iddyn nhw unieithu eu hunain gyda'r gymuned leol yn Sir Benfro.

Byddai pobl leol yn cael blaenoriaeth i symud i fyw i'r gymuned yn y dyfodol pan fydd llefydd ar gael.

**►Gellir dysgu mwy am Lamas trwy ymweld â'u gwefan: www.lamas.org.uk. Mae disgrifiad Cymraeg ar gael o amcanion y fenter. Gyda llaw, oes gan rywun gynnig ar derm Cymraeg am '*permaculture*'?**



Pwll y Felin ar dir Fferm Pont-y-Gafel ger Glandŵr yn Sir Benfro lle gobeithir creu'r pentre gwyrdd newydd.




Rhai o'r bobl sy'n gobeithio dangos patrymau symlach, llai dinistriol, o fyw os caiff Pentre Lamas ganiatad — a'u bwriad yw sicrhau bod y fenter yn Gymraeg a lleol.

# Dim dyfodol i'r Ddaear os na pheidiwn â dwyn yn wastraffus o'i hadnoddau

► PA wahaniaeth wnaiff unrhyw beth a wna unigolyn i ddyfodol y blaned gan mai yr UDA, India a China yw'r cyfranwyr mwyaf i ffactorau sy'n newid yr hinsawdd?
► ONID yw pethau wedi mynd yn rhy bell yn barod, a beth yw gwerth y mesurau 'gwrth-garbon' ffasiynol diweddar?

**Anodd yw rhoi atebion gonest i'r cwestiynau hyn, medd y gwyddonydd DR IOLO AP GWYNN, ond dyma fe'n bwrw ati ...**


LLUN: NASA

**DERBYNIA'R mwyafrif fod yr hinsawdd yn newid. Deallant hefyd y cyfranna gweithgareddau dynol at y broses – yn bennaf trwy losgi tanwydd ffosil.**

*Ond dydi pobl ddim yn dwp.*

Maen nhw hefyd yn sylweddoli na fyddai i Gymru (neu hyd yn oed Ynysoedd Prydain) lwyddo i newid, a rhedeg yn garbon -sero (beth bynnag yw gwir ystyr hynny) prin yn dylanwadu ar y sefyllfa, heb i'r newid ddigwydd ar raddfa fyd-eang.

Beth bynnag a ddigwydd rhaid cael cytundeb rhyngwladol ar sut i weithredu. Pa obaith sydd i hynny ddigwydd?

Hyd yn oed os llwyddir yn fuan, bydd yr hinsawdd yn dal i gynhesu am ddegawdau i ddod, er nid ar yr un raddfa.

Adeiladwyd cyfoeth gwledydd 'y gorllewin' ar sail llosgi tanwydd ffosil (llawer ohono wedi dod o Gymru).

Amcan gwledydd 'y trydydd byd' yw gwella eu safon byw. Yr unig ffordd a welant i wneud hynny yw drwy danio ffwrneisi eu heconomiau gyda thanwydd ffosil – wedi'r cyfan, dyna sut y datblygwyd 'y gorllewin'.

Does dim angen dewin i weld nad oes dyfodol, tymor hir, i'r fath strategaeth – hyd yn oed heb ystyried effeithiau amgylcheddol y fath ddatblygiad.

*Mae digon o lo a nwy ar gael am sbel, ond mae cyflenwad olew bellach yn gostwng a bydd yn rhaid datblygu darpariaeth amgen yn hwyr neu'n hwyrach.*

Pam na symudwn yn syth i'r cyfeiriad hwnnw, a chaniatau i'r 'trydydd byd' ddatblygu heb barhau y llanast amgylcheddol adawsom ni?

Cymhareb ddiddorol yw sôn am unigolyn yn byw y tu hwnt i'w gyflog misol ac yn tynnu ar y cyfalaf a etifeddodd ar gyfer anghenion dyddiol. Ni fyddai'r un rheolwr ariannol yn cymeradwyo gwneud hynny.

Yn nhermau ynni, y cyflog misol yw ynni adnewyddol o'r haul a'r llanw, a'r etifeddiaeth yw tanwydd ffosil a niwclear.

Er gwaethaf yr hyn a ddywedir yn gyson ar y BBC, ni ellir creu neu gynhyrchu ynni! Mae cyfanswn cyfyngedig ohono wedi ei storio, fel ein hetifeddiaeth ar y blaned, a daw cyflenwad cyson ohono (er yn gyfyngedig) ar ffurf pelydriad o'r haul.


MAE'R Dr Iolo ap Gwynn yn Uwch-Ddarlithydd yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n awdurdod ar astudiaethau celloedd.

Does dim cyflenwad dibendraw o ynni, a rhaid sylweddoli hynny os ydym i oroesi am ganrif arall ar y blaned hon.

Dulliau gwastraffus o ddefnyddio ynni a gafwyd hyd yma a gellid arbed llawer drwy weithredu'n fwy effeithlon.

Gellid gwneud llawer o bethau gweddol syml. Ond, yn y pen draw, bydd angen cyflenwad o ynni i yrru'r economi.

Sut gellir harnesu ynni at ein defnydd, nad sy'n seiliedig ar danwydd cyfyngedig ei gyflenwad?

Nid ynni niwclear yw'r ateb, oherwydd mae'r tanwydd (sef wraniwm) yn gyfyngedig ei gyflenwad.

**Nid yw pŵerdai niwclear yn cynhyrchu fawr rhagor o drydan na chyfanswm yr ynni (o losgi tanwydd ffosil) a ddefnyddiwyd i'w hadeiladu, dadgomisiynu ac i brosesu'r tanwydd/gwastraff.**

Yn ddamcaniaethol, gallai ynni niwclear o bwerdai uniad (*fusion*) yn hytrach na holltiad (*fission*) oresgyn y brobem honno – ond does neb wedi llwyddo i adeiladu un eto!

Rhaid edrych felly at y cyflenwadau sylfaenol sydd ar gael i ni. Does dim ond dau o rhain: ynni'r haul a'r ynni sy'n deillio o'r ffaith fod y ddaear yn cylchdroi'r haul a'r lleuad yn cylchdroi'r ddaear (sef yr hyn sy'n cynhyrchu'r llanw a thrai ein prif foroedd).

Mae potensial sylweddol, mewn mannau, i harneisio ynni'r llanw. Ynysoedd Prydain yw un o'r ardaloedd gorau i ddatblygu technoleg i fanteisio ar y cyflenwad hwn.

Ond, ar y rhan fwyaf o'r blaned dim ond ynni'r haul sydd ar gael.

Daw trydan dŵr, trydan gwynt, ynni biomas, trydan solar a chynhesu uniongyrchol o'r heulwen.

Gellid hefyd defnyddio ynni goleuni'r haul i hollti dŵr yn ocsigen a hydrogen, yn uniongyrchol – i roi tanwydd hydrogen i ni. Mae'n debyg, mewn egwyddor, i sut mae ynni'r heulwen yn galluogi planhigion i gynhyrchu ein bwyd.

Ond prin yw'r adnoddau a fuddsoddwyd yn y maes hwn, hyd yma (yn bennaf, mae'n debyg, oherwydd pŵer y cwmnioedd olew cydwladol).

Mae hyd yn oed yr amcangyfrifon mwyaf ceidwadol yn awgrymu y gellid rhedeg ein heconomiau ar sail ynni adnewyddol – ond bod angen newidiadau sylfaenol yn ein dull o weithredu.

Rhaid bod yn llai gwastraffus a rhaid buddsoddi'n drwm i ddatblygu'r technolegau amgen angenrheidiol.

**A oes dewis ond mynd i lawr y llwybr hwn, ar frys?**

**IOLO AP GWYNN**

Canolfan y Dechnoleg Amgen ar y blaen ers 30 mlynedd

# 'Atal cynhesu byd eang yn ddyletswydd ac yn gyfrifoldeb'



Ymwelwyr yn astudio'r gwelyau corsennog sy'n troi carthffosiaeth yn bridd ffrwythlon yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen

Gan ALWYN RICHARDS

**Yn fab ffarm o ardal Llyn Fyrnwy, astudiodd Alwyn hanes yn y Brifysgol gan ddod yn weithgar ym mudiad *People and Planet* yn Aberystwyth. Mae ar staff Canolfan y Dechnoleg Amgen, ger Machynlleth.**

**YN EI ffilm ddogfen ddiweddar, *An Inconvenient Truth*, mae cyn-Is Arlywydd America, Al Gore, yn rhagweld y bydd cenedlaethau mewn blynyddoedd i ddod yn edrych yn ôl ar ein cyfnod ni ac yn gofyn y cwestiwn pam?**

Pam nad oeddem ni wedi gwneud mwy i atal cynhesu byd eang pan roedd amser gennym i newid pethau?

Mae'n angenrheidiol ein bod ni'n clywed y cwestiwn yna heddiw, ac yn ymateb iddo cyn ei bod yn rhy hwyr.

Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen (C.A.T.) ym Machynlleth wedi bod yn ymateb i'r cwestiwn yma ers dros dri degawd trwy ddatblygu ac arddangos mathau gwahanol o fyw sydd yn cael argraff lai niweidiol ar yr amgylchedd.

Mae'r ganolfan yn ddefnyddiol dros ben ac yn cynnig cyngor ar bob math o agweddau yn ymwneud â chynaliadwyedd megis pŵer adnewyddol, adeiladu amgylcheddol a thyfu'n organig.

Yn 2008 bydd y ganolfan yn agor Sefydliad Cymru ar gyfer Addysg Gynaliadwy (Cynllun *WISE*) a fydd yn ategu'r cyfleusterau addysg sydd eisoes ar gael yn C.A.T.

Y peth mwyaf arwyddocaol am addysg C.A.T. yw ei bod yn apelio at blant a phobl ifainc, yn ogystal ag oedolion, sydd yn hollbwysig oherwydd yn eu dwylo hwy mae'r dyfodol agos pan fydd angen gweithredu'n effeithiol er mwyn atal cynhesu byd eang.

Pryder am effaith ddinistriol cynhesu byd eang ar hyfrydwch cefn gwlad yw'r brif anogaeth i mi yn fy nghais i fod yn decach i'r amgylchedd.



**Gerry Jones yn arwain grŵp sy'n astudio pynciau amgylcheddol yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen yng Nghorris. Agorir Sefydliad Cymru ar gyfer Addysg Gynaliadwy yn y Ganolfan yn ystod 2008.**

Mae gan genhedlaethau'r dyfodol yr un hawliau a ni i fanteisio ar hyfrydwch y byd o'm hamgylch. Yr ydym ni heddiw yn cymryd yr hyfrydwch hwn yn ganiataol ac nid ydym yn werthfawrogol ohono.

*Y broblem fwyaf yw nad yw'r rhan fwyaf ohonom yn gweld cynhesu byd eang fel ein problem ni o gwbl. Ond, mae atal cynhesu byd eang yn ddyletswydd ac yn gyfrifoldeb arnom ni i gyd.*

Mae modd i bawb gwneud cyfraniad bach yn y presennol a all fynd yn bell iawn yn yr hir dymor.

Rydw i'n llysieuwr er fy mod i wedi mwynhau cig am ugain mlynedd gyntaf fy mywyd ac wedi fy magu ar fferm.

Yn ôl *Animal Aid*, mae modd i ni fwydo bron i ddeg gwaith fwy o bobl ar ymborth llysieuol yn hytrach na chig. Mae'r pwyslais ar fwyta cig yn y wlad hon yn golygu bod miliynau o bobl mewn gwledydd tlawd yn mynd heb fwyd oherwydd bod tir yn cael ei ffermio ar gyfer cig yn hytrach na llysiau.

Nid yw torri cig allan o'm hymborth wedi effeithio arnaf mewn ffordd negatif o gwbl. Nid yw'n anghyfleus ac nid oes unrhyw fath o faeth mewn cig na allaf ei gael mewn bwydydd eraill.

Mae'n bwysig cofio fod y trychinebau 'naturiol' diweddar wedi taro gwledydd tlota'r byd, gwledydd sydd yn ennill bywoliaeth trwy gynhyrchu materion sy'n cyfoethogi bywydau Gorllewinwyr.

Nid wyf yn mynnu bod angen i bawb fod yn llysieuwyr er bod modd i ni gyd bwyta llai o gig - rhywbeth sydd yn fuddiol i'n hiechyd yn ogystal â'r amgylchedd. Mae yna newidiadau y gall pawb ei wneud er mwyn gwella'r sefyllfa amgylcheddol:

1) Prynu cynnyrch lleol ac organig - er ei bod yn ddrytach mewn rhai achosion, mae'n iachach ac yn golygu bod llai o nwyon carbon yn cael ei gynhyrchu wrth gludo'r cynnyrch.
2) Ail-ddefnyddio ac ailgylchu ac os yn bosib, lleihau - mae ailgylchu yn beth positif, ond mae pethau bach megis prynu bag siopa yn lleihau'r angen i gynhyrchu bagiau plastig.
3) Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu lenwi ceir - mae hyn yn arbed pres yn ogystal â nwyon carbon.
4) Peidio defnyddio gormodaeth o drydan na dŵr - dydy diffodd swîts ddim yn cymryd fawr o drafferth ac mae hyn yn fanteisiol i'ch cyfrif banc yn ogystal â'r amgylchedd.

Er mwyn cyfrif eich effaith chi ar yr amgylchedd, mae yna nifer fawr o

**Parhad ar dudalen 8.**



## Rhaid cael Comisiwn Hinsawdd, medd Leanne Wood

# ‘I osgoi ecsploetio, rhaid i Cymru ennill pwerau dros y cyfan o’n polisiau ynni ar gyfer y dyfodol’

## CAT yn arwain

**Parhad o dudalen 7**

gyfrifianellau carbon (*carbon footprint counters*) ar gael ar y rhyngrwyd erbyn hyn.

Peth brawychus yw darllen cyhoeddiad diweddaraf C.A.T., *ZeroCarbon Britain*, sy’n mynnu bod angen lleihau nwyon $CO_2$ i ddim erbyn 2050 er mwyn atal codiad difrifol yn nhymheredd y Byd. Felly, mae’r rhestr o newidiadau uchod yn lle da i ddechrau er mwyn cyflawni'r amcan hwn.

Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen yn lle gwych i gyfarfod pobl sydd wedi gwneud y newidiadau bychain hyn ac wedi gwneud cais gorau posib i fod yn gynaliadwy.

Fy amcan i mewn bywyd yw meddwl yn nhermau’r amgylchedd yn hytrach na thermau’r byd materol modern a cheisio bod yn hunan gynhaliol yn hytrach na dibynnu ar eraill.

Nid canolfan yn unig yw C.A.T.: mae hi’n gymuned hefyd, cymuned o bobl onest a brwdfrydig.

Mae natur y ganolfan yn brawf nad yw byw bywyd cynaliadwy yn gwaethygu safon bywyd, i’r gwrthwyneb, mae’n cyfoethogi bywyd. Sut arall y gellid esbonio ysbryd edmygadwy a chadarn y gymuned glos o bobl sy’n gweithio yno?

Mae modd i bawb gymryd camau tuag at fod yn fwy cynaliadwy, ac mae C.A.T. yn brawf o hynny.

► **Am fwy o wybodaeth: www.cat.org.uk**

**YCHYDIG o bobl fyddai’n gwadu yn 2008 mai newid hinsawdd yw un o bynciau gwleidyddol mwyaf llosg y dydd.**

Mae’r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o’r bygythiad o du newid hinsawdd.

Mae gwyddonwyr – sydd wedi bod yn ein rhybuddio o’r peryglon am flynyddoedd – nawr yn dweud fod y bygythiad yn fwy real ac uniongyrchol nag a gredwyd tan yn ddiweddar.

Mae cyflymder meirioli’r capannau rhew pegynnol yn achosi pryder dybryd yn eu plith.

Mae adroddiad[1] *International Alert* yn rhagweld y bydd rhannau helaeth o Affrica, Asia a De America yn dioddef rhyfel a chaledi cymdeithasol oherwydd erydiad tir, meirioli rhewlifoedd a chynnydd mewn stormydd eira.

Mae dŵr Peru, er enghraifft, ar hyn o bryd yn dod o rewlifoedd tawdd. Erbyn 2015 bydd rhewlifoedd Peru wedi diflannu o ganlyniad i gynhesu byd eang.

Ni fydd dŵr ffres gan 27 miliwn o drigolion Peru. Gallai’r fath sefyllfa mewn gwlad sydd yn barod yn wleidyddol ansefydlog achosi anrhefn llwyr.

*Yn ôl adroddiad diweddar gan WWF, petai pawb yn y byd yn defnyddio cymaint o adnoddau’r byd â thrigolion Cymru yna byddai angen tair planed arnom.* Mae’n amlwg nad yw’r sefyllfa hwn yn gynaliadwy a bod rhaid i bethau newid. Mae’n rhaid i bawb chwarae eu rhan i leihau defnydd ynni Cymru.

**Gan LEANNE WOOD AC De Cymru Canolog**

Mae Plaid Cymru’n deall fod arbed ynni’n haws na dod o hyd i fwy o ynni. Dyna pam yr ymladdodd y Blaid etholiad Mai 2007 ar addewid i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru gan 3% y flwyddyn.

Mae’r addewid hwn, ynghyd â’n ymrwymiad i sefydlu Comisiwn Newid Hinsawdd, yn sail i raglen llywodraeth Cymru’n Un sydd wedi cael ei gytuno gan y Blaid a Llafur.

Bydd yn gryn waith i fesur lefelau ein gollyngiadau carbon presennol a phenderfynu ar y mesurau angenrheidiol i’w lleihau. Ond ryn ni gyd yn sylweddoli y bydd angen gwneud llawer mwy.

Mae’n rhaid i ni feddwl o’r newydd am lu o faterion megis ynni adnewyddol, gwastraff, gollyngiadau gan drafnidiaeth, dyfodol cynhyrchu ynni niwclear a glo, ein dull o adeiladu tai a sut ac o ble ryn ni’n caffael ein bwyd.

Mae’r bygythiad o du newid hinsawdd ynghyd â’r bygythiad potensial o redeg allan o olew yn golygu na allwn fforddio peidio â gweithredu. Mae cenedlaethau’r dyfodol yn dibynnu ar ein gweithredoedd ni.

Mae Plaid Cymru wedi ymgyrchu ers amser i Gymru gael y pŵerau i weithredu’n effeithiol i daclo’n cyfraniad i newid hinsawdd.

Nawr fel plaid sy’n gyrru rhaglen lywodraethol ryn ni wedi ymrwymo i ddatganoli cyfrifoldebau cynllunio dros gynhyrchu ynni dros 50 megawat a thros reoliadau adeiladu.

Ar yr un pryd, ryn ni’n pryderu y bydd mesur cynllunio cyfredol y DU yn ei wneud hyd yn oed yn anoddach i Gymru reoli ei chynhyrchiad ynni ac allbynnau carbon ei hun.

Mae llywodraeth Cymru’n Un yn gwneud llawer o fewn ei phŵerau cyfyngedig.

Bydd Plaid Cymru’n parhau i ymgyrchu i ennill pŵerau llawn dros ein polisi ynni ynghyd â diwydiant ynni sy’n atebol i’r bobl.

**Dim ond bryd hynny y bydd Cymru’n gallu cyflawni ei dyletswydd cyfreithiol i hybu datblygiad cynaliadwy a sicrhau na fydd ein tir a’n pobl yn cael eu hecsbloetio unwaith yn rhagor.**

[1] *A Climate of Conflict*

## Protestwyr Ffos-y-frân

**ADRODDIAD GREENPEACE**




BYDDAI’R enillydd Gwobr Heddwch Nobel, Al Gore, yn falch. Rhai misoedd yn ôl meddai, “Dw i ddim yn gallu deall pam nad oes cylchoedd o bobl ifainc yn … atal adeiladu pŵerdai glo.”

Cymerodd pobl Merthyr Tudful ef ar ei air (er un cam ymhellach yn ôl yn y gadwyn gyflwyno) trwy atal gwaith ar safle glo brig mwya’ Prydain [*ym mis Rhagfyr*].

Yn rhwystredig am fod cynllunwyr lleol wedi anwybyddu’u gwrthwyneb i’r cloddio, ymunodd ymgyrchwyr hinsawdd o bob rhan o Gymru â nhw i atal gwaith turio ar safle Ffos-y-frân.

Llwyddodd dros 30 o bobl, gan gynnwys y newyddiadurwr amgylcheddol George Monbiot, i osgoi’r heddlu cyn cadwyno’u hunain i offer trwm symud pridd a’u hatal rhag cael eu defnyddio …

Roedd 10,000 o drigolion lleol wedi deisebu yn erbyn y safle fydd yn ymestyn o fewn 40 medr i’w cartrefi ...

Er nad oedd gweithred Ffos-y-frân unrhyw beth i wneud â ni, rydym yn ei chefnogi’n llwyr - mae angen mwy o bobl i sefyll a gwrthwynebu elw masnachol tymor-byr sy’n chwalu’n dyfodol. Glo yw’r tanwydd mwya’ brwnt sydd ar gael a bydd prosiectau fel y lofa hon yn dinistrio’n gobeithion o ddelio â thwymo byd eang. ***[www.greenpeace.org.uk]***

SAN STEFFAN YN OCHRI Â LOBI'R ATOMFEYDD ...

# Dyfodol niwclear — cloddio wraniwm, mwy o $CO_2$, gwastraff ymbelydrol, a chostau ar drethi?

**MAE dyfodol ynni niwclear yng Nghymru yn cael ei drafod unwaith eto yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth San Steffan ar 10 Ionawr y bydd yn cefnogi cenhedlaeth newydd o bŵerdai niwclear.**

Gyda Thrawsfynydd eisoes wedi cau, a'r Wylfa yn dod i ben ei hoes yn 2010, mae'r penderfyniad wedi rhoi gobaith i'r rheiny sy'n dymuno gweld pŵerdy niwclear newydd yn cael ei adeiladu ar un o'r ddau safle.

Cyhoeddodd John Hutton, yr Ysgrifennydd Busnes y bydd deddfwriaeth cynllunio newydd yn ei gwneud hi'n haws adeiladu pŵerdai niwclear newydd, ond ni fydd cymhorthdal uniongyrchol ar gael gan y llywodraeth.

Mae cwestiynau'n parhau, fodd bynnag, ynglŷn â phwy fydd yn gyfrifol am y gost o ddatgomisiynu a rheoli'r gwastraff.

Gyda phrisiau olew yn cynyddu, nwy Môr y Gogledd yn prinhau ac ynni adnewyddol heb fod yn ddigon datblygedig i lenwi'r 'bwlch ynni', cyflwynir niwclear fel yr unig ddewis i gyflenwi'r galw am ynni a lleihau allyriant $CO_2$.

Ond mae Greenpeace yn honni petai'r DU yn adeiladu 10 pŵerdy niwclear newydd, fyddai hynny ddim ond yn golygu lleihad o 4% mewn allyriannau $CO_2$ rhyw dro ar ôl 2025. Mae hyn oherwydd bod y broses o gloddio a phuro wraniwm yn defnyddio llawer o egni, ac felly yn gyfrifol am faint sylweddol o allyriant $CO_2$.



ADRODDIAD
*gan*
SERAN DOLMA



**"Wedi ei fyw y mae dy fywyd, dy rawd wedi ei rhedeg hefyd" - ond mae gwastraff Atomfa Trawsfynydd yn rhodd gennym i'r dyfodol *LLUN: PhotoEverywhere.co.uk***

Yn ogystal â'r amheuon ynglŷn â'r economeg a gallu niwclear i leihau nwyon tŷ gwydr, mae cwestiynau yn parhau ynglŷn â diogelwch a sut i ddelio gyda gwastraff niwclear. Er na fu unrhyw ddigwyddiad difrifol yn y DU, mae Chernobyl yn ein hatgoffa na ddylid anghofio am effeithiau trychinebus damweiniau niwclear.

Ond nid mewn damweiniau yn unig y mae ymbelydredd yn peryglu iechyd y boblogaeth. Mae ymchwil newydd yn yr Almaen a gyhoeddwyd yn yr *'International Journal of Cancer'* yn dangos fod dwywaith cymaint o berygl o leukaemia mewn plant sy'n byw o fewn 5km i bŵerdy niwclear ag sydd yn y boblogaeth yn gyffredinol.

Mae pŵerdy sifil yn cynhyrchu tua 20-30 tunnell y flwyddyn o wastraff lefel-uchel, sy'n ymbelydrol am ddegau o filoedd o flynyddoedd. Y consenswS presennol ar wastraff niwclear yw y dylid ei gladdu yn ddwfn o dan y ddaear, fel mesur tymor-canolig, nes y darganfyddir ffordd o gael gwared arno.

**Nid oes unrhyw safle wedi ei ddewis eto ar gyfer y gwastraff o bŵerdai gweithredol y DU, heb son am bŵerdai'r dyfodol.**

Gwyddom, bellach, fod y penderfyniad i ffafrio ynni niwclear wedi ei gymryd yn bell cyn yr 'ymgynghoriad' cyhoeddus a gafwyd yn wallus a chamarweiniol gan yr Ustus Sullivan yn yr Uchel Lys flwyddyn yn ôl.

Ond pam bod y llywodraeth mor benderfynol mai ynni niwclear ydi'r ffordd ymlaen? Efallai, fel maen nhw eu hunain yn dadlau, fod yr economeg wedi newid, a bod niwclear nawr yn ddewis addas o safbwynt ariannol.

*Eglurhad arall yw bod y diwydiant niwclear yn bodoli ers y pumdegau, ac yn berchen ar lobi bwerus, tra bod y diwydiant egni adnewyddol yn gymharol newydd a gwan.*

Byddai cefnogi egni adnewyddol datganoledig, ynghyd â lleihau defnydd egni, fel y mae mudiadau gwyrdd yn ei awgrymu, yn dibynnu ar gydweithrediad rhwng pob sector o'r gymuned.

Oherwydd hynny fe fyddai'n llawer mwy cymhleth i'w weithredu na'r dewis niwclear. Efallai na fyddai'r neges fod rhaid lleihau defnydd egni yn un boblogaidd gan yr etholaeth ychwaith.

Felly, er gwaetha'r cwestiynau a'r amheuon, ac er gwaethaf barn y cyhoedd, dyfodol niwclear bia hi.

Tybed a welwn ail-ffyniant y mudiad gwrth-niwclear mewn ymateb i'r datblygiadau diweddar hyn?

**► Mae Seran Dolma wedi dychwelyd i Lanfrothen ar ôl astudio am MSc mewn Amgylchedd a Datblygu ym Mhrifysgol Caeredin. Mae'n ysgrifennu ac yn cyfieithu.**

## Cofio Gandhi — proffwyd heddwch

**LEDLED y byd bu carwyr heddwch, ysbrydolrwydd a'r Ddaear yn nodi 60 mlynedd ers llofruddiaeth Mahatma Gandhi ar 30 Ionawr, 1948. Gandhi arweiniodd India at annibyniaeth o'r Ymerodraeth Brydeinig gan wneud dulliau di-drais yn ganolog i'w fywyd a'i neges. Ychydig wythnosau cyn iddo gael ei saethu, rhoddodd Gandhi ddarn o emwaith i'w ŵyr, Arun, gyda geiriau'r 'Saith Cam Gwag' wedi'u cerfio arno — sef sail i'r trais sy'n rhwygo'r byd.**

**Y SAITH CAM GWAG**

**Cyfoeth heb waith**
**Pleser heb gydwybod**
**Gwybodaeth heb gymeriad**
**Masnach heb foesoldeb**
**Gwyddoniaeth heb ddyngarwch**
**Addoliad heb aberth**
**Gwleidyddiaeth heb egwyddorion**

## CROESO I GOLOFNAU'R PAPUR GWYRDD

**DIOLCH i bawb sydd wedi croesawu bodolaeth *Y Papur Gwyrdd.***

**Ein gobaith yw hybu ymgyrchu amgylcheddol Cymraeg ledled Cymru.**

**Gan hynny, rydym yn falch i dderbyn erthyglau (tua 600 o eiriau, os bosib) sy'n ymdrin â'r niwed mae dynoliaeth yn achosi i'r Ddaear ynghyd â ffyrdd amgen o fyw.**

**Croesawn newyddion am ymdrechion gan grwpiau ac unigolion gwyrdd ledled Cymru.**

**Rydym, hefyd, yn croesawu llythyrau (tua 250 gair).**

**Danfonwch eich cyfraniadau at:**
**Y Papur Gwyrdd,**
**217 Vicarage Road,**
**Treforys,**
**Abertawe SA6 6DX.**

**Os hoffech drafod yn uniongyrchol, ffoniwch Hywel Davies ar 01792 798162.**

# Cynhadledd Bali yn rheswm dros fod yn obeithiol — Syr John



**ROEDD Cynhadledd Amgylcheddol Bali yn gam i'r cyfeiriad iawn o ran ymdrechion i atal eithafion newid hinsawdd, medd y gwyddonydd blaenllaw Cymreig Dr John Houghton, er llwyddiant y Tŷ Gwyn wrth geisio cuddio targedau penodol i gwtogi nwyon tŷ gwydr.**

Mewn cyfweliad arbennig gyda'r **Papur Gwyrdd**, dywedodd Syr John fod tynnu llywodraeth George Bush - yn gweiddi ac yn sgrechian - i arwyddo cytundeb o gwbl yn llwyddiant pwysig yn y cyfarfodydd ychydig cyn y Nadolig.

"Y cytundeb yw bod cynrychiolwyr yn cwrdd ac yn gweithio ymlaen i gael ateb i broblem yr hinsawdd," meddai, "Felly, mae popeth i chwarae drosto o ran lleihau achosion newid hinsawdd."

Mae Syr John yn wreiddiol o bentref Dyserth ger y Rhyl, ac yn gyn-gadeirydd ar is-bwyllgor Panel Rhynglywodraethol Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig.

Wedi ymddeol ar ôl bod yn Athro Ffiseg Atmosfferig yn Rhydychen ac yn Is-lywydd Asiantaeth Meteoregol y Byd, mae'n byw bellach yn Aberdyfi.

"Cytundeb pwysig arall oedd hwnnw bod y byd cyfoethog yn cynorthwyo gwledydd tlawd i addasu," meddai. "Ni yn y Gorllewin sy'n gyfrifol am y niwed a achoswyd yn ystod dros 200 mlynedd o ddiwydiannu yn seiliedig ar ddefnydd tanwydd ffosil.

"Fe'n gwnaeth ni'n gyfoethog iawn, felly rhaid i ni helpu pobl dlotach i oroesi'r difrod rydyn ni'n gyfrifol amdano.

"Felly, roedd Cytundeb Bali yn dda iawn," meddai, "Ond yr hyn sydd ei angen nawr yw nid siarad ond gweithredu."

Bu Syr John yn un o wyddonwyr Panel Hinsawdd y CU a aeth i Oslo yn ddiweddar i dderbyn Gwobr Heddwch Nobel ar y cyd gyda'r ymgyrchydd amgylcheddol Americanaidd, Al Gore.

"Roedd yn dda i gwrdd ag Al Gore eto," meddai, "Ces i gwrdd ag e pan oedd yn Is-Arlywydd America - ac fe roddodd araith angerddol yn Oslo.

"Yr hyn oedd yn rhyfeddol oedd bod grŵp o wyddonwyr sy'n gweithio ledled y byd wedi ennill Gwobr Heddwch. Roedd yn adlewyrchu pwysigrwydd ein gwaith ar newid hinsawdd mewn termau heddwch rhyngwladol."

Er y problemau, dywedodd ei fod yn optimistaidd: "Rydw i'n Gristion," meddai, "Ac rwy'n credu bod Duw yn gofidio am y byd a'n bod ni fel pobl yn bartneriaid ag ef wrth geisio'i achub."

## LLYTHYRAU'R PAPUR GWYRDD

# GwUrdd yn esiampl wych

WEDI darllen erthygl *Rhaid Asio'r Mudiadau Gwyrdd ac Iaith* yn rhifyn Rhag-fyr/Ionawr **Y Papur Gwyrdd**, teimlwn ddyletswydd i sôn am ein grŵp ieuenctid lleol yn Llanfrothen, sy'n dwyn yr enw GwUrdd.

Asiad ydyw o ddau fudiad, sef Gwerin y Coed - sy'n annog pobl ifanc i ymddiddori yn, a chymryd cyfrifoldeb am, yr amgylchedd - a'r Urdd, sydd wedi bod yn allweddol yn meithrin yr iaith Gymraeg ymysg cenedlaethau o bobl ifanc.

Mae brwdfrydedd ac ymroddiad y bobl ifanc yn y grŵp yn ysbrydoliaeth, ac anodd gen i gredu mai nhw yw'r unig rai sy'n sylweddoli'r cysylltiad rhwng dyfodol yr iaith a dyfodol y blaned.

Mae GwUrdd Llanfrothen yn cwrdd rhwng 6 ac 8 pob nos Fercher yn y Ganolfan, Llanfrothen.

Mae croeso i bawb o blant yr ardal sydd rhwng 6 a 12 oed.

Seran Dolma
Llanfrothen
Gwynedd




# HYSBYSEBION

***AMGYLCHEDDOL / ORGANIG***

**I hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd, ffoniwch 01792 798162 neu ebostiwch am fanylion at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com**


'MAE gwyddonwyr bellach yn rhybuddio, heb amheuaeth, ein bod yn wynebu trychineb amgylcheddol, efallai hyd yn oed diwedd ein rhywogaeth, os awn ymlaen gyda'n polisïau presennol.

'Gallwn ymateb un ai gyda dychryn ac iselder neu fe allwn weld hyn fel y cyfnod mwya' cyffrous yn hanes i fod yn fyw ynddo.

'Yr unig opsiwn erbyn hyn yw newid radical i lawer o'r pethau y buom yn credu nad oedd modd eu newid.'

**James Bruges yng nghylchgrawn *Resurgence*, wrth ddisgrifio craidd ei lyfr *The Big Earth Book* (Cyh. Alasdair Sawday).**

# Nôl o Frwsel i ymgyrchu dros yr amgylchedd

**MAE Haf Elgar, cyn ymchwilydd yn Senedd Ewrop, wedi cael ei phenodi yn Swyddog Ymgyrchoedd Cyfeillion y Ddaear Cymru.**

Meddai Haf, "Dwi wrth fy modd i fod 'nôl yng Nghymru ac yn gweithio i fudiad amgylcheddol blaengar ac arloesol fel Cyfeillion y Ddaear."

Yn wreiddiol o Abertawe, astudiodd Haf ar gyfer gradd gyfun Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Chymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.



Haf Elgar

Astudiodd am radd bellach a gweithio ar brosiect ymchwil yn Adran Wleidyddiaeth Prifysgol Caeredin am flwyddyn.

Ers hynny bu ym Mrwsel am chwe mlynedd yn gweithio fel ymchwilydd i'r Aelod Seneddol Ewropeaidd Jill Evans.

Yn ogystal â gweithio ar ddeddfwriaeth amgylcheddol Ewropeaidd, cafodd Haf y cyfle ym Mrwsel i ddysgu am wledydd a rhanbarthau eraill Ewrop.

Cafodd weld sut y gallwn ni yng Nghymru ddysgu o gynllun egni adnewyddol Gwlad y Basg, er enghraifft, neu brosiectau ailgylchu Fflandrys.

Fel Ymgyrchydd Cyfeillion y Ddaear Cymru bydd Haf yn gweithio ar nifer o ymgyrchoedd gan gynnwys cadw Cymru'n ddi-GM, gwrthwynebu trafforddd lefelau Gwent, helpu cymunedau lleol i wrthwynebu datblygiadau anaddas, a lobio pwyllgorau a llywodraeth y Cynulliad i arwain y blaen ar newid hinsawdd.

**►Bydd Haf yn gweithio o swyddfa cenedlaethol Cyfeillion y Ddaear Cymru, 33 Oriel Arcêd y Castell, Caerdydd …**
**Ffôn 02920 229577,**
**Ebost: haf.elgar@foe.co.uk**

## Angen toriad o 80%

RHAID i Aelodau Seneddol San Steffan Cymru geisio cryfhau Mesur Newid yr Hinsawdd, medd mudiad Atal Anrhefn Hinsawdd Cymru (SCCC).

Dywedodd Steve Brooks, Pennaeth Oxfam Cymru a Chadeirydd SCCC, "Rydyn ni angen i ASau ymrwymo i leihau $CO_2$ o 80% erbyn 2050. Nid yw'r cynnig presennol i'w gwtogi dim ond 60% yn ddigon."



## Ffair Werdd yn denu lluoedd yn Abertawe



PROFODD y Ffair Werdd a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, ychydig cyn y Nadolig yn llwyddiant mawr.

Trefnwyd y Ffair gan Ganolfan Amgylcheddol Abertawe i roi cyfle i bobl brynu anrhegion gwyrdd at yr Ŵyl.

Gan gyfuno stondinau Masnach Gynnyrch Leol fisol Abertawe gydag amrywiaeth o stondinau'r Ffair Werdd, llwyddwyd i ddenu 2,500 i'r amgueddfa.

… Ac roedd cael bod dan dô ar ddiwrnod mor lawog yn bleser ychwanegol!


## CYNNIG ARBENNIG UNDERCURRENTS

**BROAD HORIZONS** – DVD cyfansawdd o newyddion a barn radicalaidd. Dogfennau'n cynnwys *Evolving Minds* sy'n cynnig ffyrdd amgen ar gyfer y system iechyd meddyliol
**TRAINSTOPPING** – sut lwyddodd ymgyrchwyr i atal trenau gwastraff niwclear yr Almaen
**CLOWNING AROUND AT THE G8** – Technegau'r *Rebel Clown Army* yn ystod uwch-gynhadledd yr G8
**THE VERY MODEL OF A MODERN LABOUR MINISTER** – Caneuon ac animeiddio sy'n dangos y broblem gyda chardiau adnabod!
**I AIN'T LOOKING FOR YOUR SYMPATHY** – Ffilm ddogfen galonogol am y technegau mae menywod yn eu defnyddio i oresgyn anabledd
… a llawer mwy

► Cynnig Arbennig DVD am £5 yn unig + £1 p&p (RRP £12)
Daw'r cynnig i ben 1af Ebrill
Soniwch am Y Papur Gwyrdd wrth archebu: 01792 455900
www.undercurrents.org

## Y PAPUR GWYRDD

**PRYNWCH YN LLEOL — NEU DANYSGRIFIWCH …**

**Os nad ydy'r Papur Gwyrdd ar gael yn eich siop lyfrau lleol , croeso i chi danysgrifio trwy ddanfon llythyr gyda'ch manylion at:**

**217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX gyda siec at 'Y Papur Gwyrdd' am £6.00 am 6 rhifyn deufisol.**

**Am fwy o wybodaeth:**
**Ffôn — 01792 798162;**
**Ebost — ypapurgwyrdd1@btinternet.com;**
**Gwefan — www.ypapurgwyrdd.com**



Mynnwch
gwsg
ym mynwes
natur



# Matresi Organig gan Abaca

01269 598491
info@abacaorganic.co.uk

